Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

17/07/25,

Annwyl Rieni,

**Diwedd tymor-** Ar ddiwedd tymor prysur arall, hoffwn fynegi fy niolchiadau i staff, disgyblion a rhieni Ysgol Pen Barras am y cydweithio braf drwy gydol y flwyddyn. Mae ymdeimlad braf iawn yn perthyn i gymuned yr ysgol a braf gweld pawb yn rhannu'r un weledigaeth a gwerthoedd. Mae wedi bod yn sicr yn flwyddyn lwyddiannus i'r ysgol. Yr ysgol wedi bod yn amlwg ar lwyfannau creadigol a cherddorol, llwyddiant ym myd y campau. Ond yn fwy na hyn, efallai mai'r llwyddiant fwyaf yw gweld yr ymdeimlad o berthyn, o fod yn driw i'n gilydd ac i'n cymuned- a hyn ymhlith disgyblion, staff a rhieni ein cymuned arbennig.

Hoffwn ddymuno'n dda i'r disgyblion Blwyddyn 6 hynny sy'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd ym Mis Medi. Cofiwch, fyddwch yn wastadol yn rhan o deulu estynedig Ysgol Pen Barras! Cofiwch eich gwreiddiau a chofiwch eich Cymreictod! Byddwn hefyd yn edrych ymlaen at gael croesawu 36 o ddisgyblion bach newydd i'r Meithrin ym mis Medi- yn cychwyn eu taith ym myd addysg yma ym Mhen Barras!

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r tîm arbennig o staff sydd yma yn Ysgol Pen Barras. Mae ysbryd cynhaliol iawn yma a phawb yn cyd-dynnu er lles ein disgyblion. Mawr hyderaf caiff y staff seibiant haeddiannol dros yr haf.

Mae'n ddiolchiadau hefyd i'r bwrdd Llywodraethol- maent yn gefnogol ac yn rhan allweddol o ddim adweinyddol yr ysgol. Diolch iddynt oll am eu cefnogaeth i mi ac i'r staff yn ystod y flwyddyn.

Hoffwn ddymuno'n dda hefyd i Mrs Ceri Roberts (Dosbarth Celyn) sydd yn cymryd seibiant o'i swydd dysgu yma am flwyddyn. Dymuniadau gorau iddi ac edrychwn ymlaen at ei chroesawu yn ôl ym mis Medi 2026.

**Diwrnod Olaf 18/07/25-** Gwisg ysgol i bawb os gwelwch yn dda (cyfle olaf i rai Blwyddyn 6 wisgo lliw marwn enwog Ysgol Pen Barras!) Dim teganau o'r cartref os gwelwch yn dda. Cyfle i gymdeithasu a sgwrsio efo ffrindiau a staff ysgol!

**Tymor Newydd**- Mae dau ddiwrnod HMS wedi clustnodi i staff ar ddechrau tymor nesaf- sef Dydd Llun, Medi 1af a Dydd Mawrth, 2il o Fedi. Bydd Ysgol Pen Barras ar agor i bawb ar ddydd Mercher, Medi'r 3ydd, 2025.

Yn gywir,

*Dyfan Phillips* a Staff Ysgol Pen Barras

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

***17/07/25***

*Dear Parents,*

***End of Term** – At the end of another busy term, I would like to express my sincere thanks to the staff, pupils, and parents of Ysgol Pen Barras for all your support and co-operation during the year. There is a very warm sense of community here at Ysgol Pen Barras, and it's lovely to see everyone sharing the same vision and values. It has certainly been a successful year for the school. The school has been prominent on many levels- on various creative and musical platforms, and in the world of sports. But more than that, perhaps the greatest success is seeing the sense of belonging, of being true to one another and to our community – and this among pupils, staff, and parents of our special community here in the heart of the Vale of Clwyd.*

*I would like to wish all the Year 6 pupils who are transferring to secondary school in September the very best. Remember, you will always be part of the extended Ysgol Pen Barras family! Remember your roots and remember to take your pride in the Welsh language and culture with you, whatever part of the globe you may be!*

*We also look forward to welcoming 36 new little pupils to the Nursery in September – at the beginning their educational journey here at Pen Barras! Pob lwc i chi!*

*I would like to sincerely thank the special team of staff here at Ysgol Pen Barras. The team spirit here is one which has been honed over many years and long may it continue! All of our staff work together for the benefit of our pupils. I truly hope the staff enjoy a well-deserved break over the summer.*

*My thanks also go to the Governing Body – they are extremely supportive and a key part of the school's leadership. Thank you for your support to myself as head teacher and to the staff during the year.*

*I would also like to wish Mrs. Ceri Roberts (Celyn Class) the best as she takes a year's break from her teaching role here. Best wishes to her, and we look forward to welcoming her back in September 2026.*

***End of term – 18/07/25** – School uniform for everyone please (a final chance for some Year 6 pupils to wear the famous Ysgol Pen Barras' maroon colour!). No electronic toys/gadgets please. Hopefully it will be an opportunity for staff and pupils to socialise and enjoy the last day of term.*

***New Term** – Two INSET days are scheduled for staff at the start of next term – Monday, September 1st and Tuesday, September 2nd. Ysgol Pen Barras will be open to all on **Wednesday, September 3rd, 2025**.*

*Kind regards,*
*Dyfan Phillips and Ysgol Pen Barras School Staff*